# Detholiad o eitemau ar gyfer asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Ystyr 'eitem' yw unrhyw bolisi, gweithdrefn, datganiad o arfer neu eitem arall newydd, gan gynnwys strategaethau a rhaglenni gwaith. Mae hefyd yn cynnwys polisïau ac ati sy'n cael eu hadolygu.

Enw'r eitem: *Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Swyddfa Archwilio Cymru*

Enw(au) awdur(on) yr eitem: *Ian Phillips a Martin Peters*

Enw'r adolygydd (y person sy'n cynnal yr adolygiad o ddetholiad hwn): *Martin Peters*

Dyddiad yr adolygiad o ddetholiad: *10 Gorffennaf 2012*

1. A yw'r eitem yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw berson â nodweddion gwarchodedig?

~~Ydy~~/Nac ydy

Eglurwch yn fras y rhesymau dros yr ateb, gan gyfeirio at unrhyw dystiolaeth berthnasol:

*Mae mynediad mwy cyfyngedig at waith SAC (e.e. adroddiadau ar y defnydd a wneir o adnoddau cyhoeddus) neu gyfleoedd cyflogaeth â SAC yn effeithiau andwyol sylweddol posibl. Dengys data a gasglwyd gan asiantaeth farchnata Xposure fod proffiliau defnyddwyr tri o'r prif rwydweithiau cymdeithasol—Facebook, Linkedin a Twitter—yn awgrymu bod defnyddwyr yn iau, yn gyfoethocach, ac yn fwy tebygol o fod yn ddynion na'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan. Mae risg felly y gall defnyddio cyfryngau cymdeithasol olygu bod rhai pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig dan anfantais, fel pobl hŷn neu ferched, o ran ymgysylltu â SAC. (Mae'r materion o ran hygyrchedd i bobl anabl yn debyg iawn i'r rheiny ar gyfer dulliau cyfathrebu cyfrifiadurol eraill. Gall pobl ddall a rhannol ddall ddefnyddio meddalwedd sy'n trosi testun yn llais, er bod yr angen i gaffael meddalwedd o'r fath yn rhwystr posibl i hyn.)*

*Mae'r polisi ynglŷn â chyfryngau cymdeithasol yn dileu effeithiau allgau sy'n deillio o'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn effeithiol drwy ei gwneud yn ofynnol i sianelau eraill gael eu defnyddio ochr yn ochr â chyfryngau cymdeithasol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn benodol, ni ddylid defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel y prif ddull o gynnal ymgyrchoedd recriwtio. Mae'r polisi hefyd yn gwahardd y defnydd o gyfryngau cymdeithasol at ddibenion dethol, sgrinio neu gynnal gwiriadau cefndir wrth recriwtio, gan felly ddileu effeithiau gwahaniaethol posibl arferion o'r fath o ran, er enghraifft, rhywioldeb.*

2. A yw'r eitem yn debygol o gael effaith fach ar nifer fawr o bobl â nodweddion gwarchodedig?

~~Ydy~~/Nac ydy

Eglurwch yn fras y rhesymau dros yr ateb, gan gyfeirio at unrhyw dystiolaeth berthnasol:

*Gan dybio bod gallu cyfyngedig i gael mynediad at waith SAC yn cael effaith andwyol fach, mae'r un ystyriaethau yn gymwys ag ar gyfer effeithiau andwyol sylweddol (gweler 1 uchod). Fel o dan 1, mae'r polisi'n dileu effeithiau allgau sy'n deillio o'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn effeithiol drwy ei gwneud yn ofynnol i sianelau eraill gael eu defnyddio ochr yn ochr â chyfryngau cymdeithasol.*

3. A yw'r eitem yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw sefydliadau eraill o ran cydraddoldeb? (Er enghraifft, meini prawf asesu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.)

~~Ydy~~/Nac ydy

Eglurwch yn fras y rhesymau dros yr ateb, gan gyfeirio at unrhyw dystiolaeth berthnasol:

*Nid yw defnydd SAC o gyfryngau cymdeithasol yn debygol o gael unrhyw effaith sylweddol ar unrhyw sefydliadau eraill o ran cydraddoldeb. Os caiff y polisi ei gyhoeddi, gall fod yn esiampl i gyrff eraill o ran sut i lywio eu polisïau er mwyn osgoi effeithiau gwahaniaethol posibl y defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Ymddengys yn annhebygol, serch hynny, y caiff hyn effaith sylweddol.*

4. A yw'r eitem yn ymwneud â maes lle y dylai fod potensial sylweddol i leihau anghydraddoldebau neu wella canlyniadau? (Er enghraifft, gwella'r gallu i gael gadael ar wasanaeth iechyd i bobl drawsrywiol.)

~~Ydy~~/Nac ydy

Eglurwch yn fras y rhesymau dros yr ateb, gan gyfeirio at unrhyw dystiolaeth berthnasol:

*Gall defnyddio cyfryngau cymdeithasol wella'r amrywiaeth o sianelau mynediad sydd ar gael at allbynnau, prosesau ymgysylltu a chyfleoedd cyflogaeth SAC, ond mae'n annhebygol y bydd yn arwain at botensial sylweddol i leihau anghydraddoldebau neu wella canlyniadau. Yn benodol, nid yw'n debygol o wella mynediad i bobl â nodweddion gwarchodedig sy'n dioddef anfantais.*

5. Yn gyffredinol, a yw'r eitem yn debygol o effeithio ar allu SAC i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol i raddau ystyrlon?

~~Ydy~~/Nac ydy

Eglurwch yn fras y rhesymau dros yr ateb, gan gyfeirio at unrhyw dystiolaeth berthnasol:

*Gallai defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn modd a oedd yn disodli sianelau cyfathrebu eraill yn hytrach nag ychwanegu atynt lesteirio gallu SAC i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol oherwydd y rhesymau a nodir yn C1. Ond fel y nodir yn C1, caiff effaith o'r fath ei hosgoi drwy ei gwneud yn ofynnol i gyfryngau cymdeithasol gael eu defnyddio ochr yn ochr â sianelau eraill wrth adrodd ac ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys o ran recriwtio. Mae'r ffaith bod y polisi'n gwahardd y defnydd o gyfryngau cymdeithasol at ddibenion dethol, sgrinio neu gynnal gwiriadau cefndir wrth recriwtio yn dileu effeithiau gwahaniaethol posibl arferion o'r fath.*

Os mai 'ydy' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, yna caiff yr eitem ei dethol ar gyfer asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Mewn achosion o'r fath, dylai'r wybodaeth ar y ffurflen hon lywio'r asesiad dilynol. Sut bynnag, dylid cadw'r ffurflen hon fel cofnod o'r adolygiad o'r eitemau a ddetholwyd ar gyfer asesiad.